



Hawl Plant i Chwarae yng Nghymru:
Chwe blynedd o straeon a newid ers cychwyn
Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Cymru

Adroddiad cryno



Awduron: Wendy Russell, Mike Barclay, Ben Tawil a Charlotte Derry

Hydref 2019

© Yr awduron a Chwarae Cymru

Cyhoeddwyd gan: Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

www.chwaraecymru.org.uk

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau o brosiect ymchwil graddfa fechan archwiliodd ganfyddiadau am yr hyn sydd wedi newid ers cychwyn Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Llywodraeth Cymru yn 2012.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar gais – eboostiwch gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk

Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys y Dr Wendy Russell, Uwch-ddarlithydd mewn Chwarae a Gwaith Chwarae ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw; Mike Barclay a Ben Tawil, Ludicology; a Charlotte Derry, Playful Places. Mae'r astudiaeth yn dilyn ymlaen o ddau brosiect ymchwil ar raddfa fechan¹. Mae'n gweithio gyda nifer o arfau cysyniadol a ddatblygwyd trwy'r astudiaethau hyn a thrwy waith arall aelodau timau mewn a gydag awdurdodau lleol yng Nghymru ar y Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **cyd-ddoethineb**: gweithio gyda ffyrdd lluosog o wybod, ar draws meysydd proffesiynol a gyda gwahanol ffyrdd y bydd plant yn gwybod am eu bywydau a gofodau bob dydd
- **cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd**: gan ddechrau gyda'r gynsail bod hawl plant i chwarae'n fater o gyfiawnder gofodol i blant, mae camau gweithredu gan oedolion yn mynd i'r afael â phrosesau perthynol cyfrif am allu plant i ganfod amser a lle i chwarae ac ymateboldeb o ran ailfeddwl arferion a threfniadau i adael gofodau'n fwy agored ar gyfer chwarae
- **pedwar cofrestr Amin**: addasu pedwar cofrestr Ash Amin ar gyfer 'dinas dda', sef atgyweirio a chynnal a chadw, cydberthynas, hawliau ac ail-gyfareddu.² Defnyddir y rhain fel penawdau i drefnu'r drafodaeth ar y data ac fe'u cyflwynir yn fanylach isod.

Roedd yr ymchwil, a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a Mawrth 2019, yn cynnwys tri edefyn:

- dadansoddiad dogfennol o Aseidiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSAs) 2013 a 2016, dogfennau polisi, ymchwil, a dogfennau ychwanegol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, gyda dadansoddiad byr o

rai o PSAs 2019, oedd yn bosibl yn ystod yr amser oedd ar gael

- cyfweiliadau gyda 18 o swyddogion arweiniodd Cyfleoedd Chwarae Digonol, staff Chwarae Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Plant
- gweithio gyda thri awdurdod lleol astudiaeth achos, yn cynnwys cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol, a gan ddefnyddio dulliau creadigol i siarad â phlant a theuluoedd.

Nid yw polisi'n digwydd mewn gwactod, ac mae nifer o newidion a digwyddiadau sydd wedi effeithio ar y cynnydd a wnaethpwyd gan awdurdodau lleol, yn cynnwys:

- man cychwyn pob awdurdod unigol
- capasiti, gallu, hyder a chysondeb y bobl oedd yn rhan o'r gwaith;
- cefnogaeth a rhwydweithio a hwyluswyd gan Chwarae Cymru
- mesurau cynni
- newidiadau i ddeddfwriaeth, ffrydiau ariannu, rheoliadau arolygu a phersonél.

Er gwaetha'r heriau a wynebwyd, mae llawer o frwdfrydedd yn dal i fodoli ynghylch y Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol. Siaradodd pobl am gysylltiadau a darganfyddiadau newydd, am chwarae'n cael ei gymryd o ddifrif o fewn yr awdurdod ac am fentrau arloesol. Roedd ymdeimlad o werthfawrogiad cyffredinol o natur chwarae plant a'r amodau sydd eu hangen i'w gefnogi, gan gwmpasu darpariaeth benodol yn ogystal â chyfleoedd i blant chwarae a chymdeithasu yn eu cymdogaethau.

'Wnaeth y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddim gwneud pethau'n haws ... ond fe wnaeth newid yn sylfaenol y modd yr aethom i'r afael â'r gwaith. Fe wnaeth newid y modd y byddem yn siarad am blant a'u chwarae'n ddramatig iawn.'

**Arweinydd Digonolrwydd
Cyfleoedd Chwarae**

Atgyweirio a chynnal a chadw

Er mwyn i amgylcheddau gefnogi chwarae plant, mae angen i'r elfennau sylfaenol fod mewn cyflwr da, ac mae angen gosod arferion ymarfer dan y chwyddwydr i weld sut gallai gofodau eithrio plant. 'Does ryfedd bod y mesurau cynni a orfodwyd gan Lywodraeth y DU yn amlwg iawn yn yr Aseidiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSAs) yn ogystal â'r cyfweiliadau.

Cwtogi gwasanaethau: Cafwyd toriadau nas gwelwyd o'r blaen mewn gwasanaethau chwarae a gwaith chwarae, a bu colli'r cymdeithasau chwarae rhanbarthol yn golled galed iawn. Mae toriadau i wasanaethau ieuencid wedi effeithio ar eu defnyddwyr yn ogystal ag ar blant iau; cyfeiriwyd at ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml wrth sgwrsio â theuluoedd a phlant am chwarae'r tu allan. Mae rhai cyllidebau cynnal a chadw wedi eu gostwng i gyn lleied ag £20 yr ardal chwarae'r flwyddyn.

Mae'r toriadau hyn, ynghyd â'r sail cost-niwtral ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd digonol i chwarae, wedi mynnu y dylai awdurdodau lleol feddwl yn wahanol, gan arwain at nifer o fentrau arloesol, yn aml â ffocws cymunedol.

Roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- gosod cistiau morgludo yn llawn rhannau rhydd mewn cymunedau;
- adran gynllunio'n cynnwys llawer o wybodaeth am chwarae yn eu Canllaw Dylunio Preswyl;
- rheolwr canol tref yn defnyddio sialc i greu ysgol 'sgots ar y palmant;
- gwirfoddolwyr lleol yn derbyn hyfforddiant i gynnal sesiynau chwarae;
- gweithwyr chwarae'n cynnal sesiynau mewn hostel i'r digartref;
- cyflenwr yn cyflwyno sgwteri ar gyfer prosiect Sgwrtio i'r Ysgol;
- gwasanaethau cymdeithasol yn creu polisi sy'n galluogi gofalwyr maeth i gefnogi cymryd risg wrth chwarae.

Toriadau staffio: Ynghyd â thoriadau i wasanaethau, mae cwtogi staff wedi golygu bod nifer o swyddogion sy'n arwain ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae bellach â chylchoedd gwaith estynedig, sy'n golygu llai o amser a llai o adnoddau ar gyfer gwaith Digonolrwydd Chwarae. Un o gryfderau a chyflawniadau pennaf y Ddyletswydd yw'r gydnabyddiaeth bod chwarae'n gyfrifoldeb pob oedolyn, a bod yr angen i awdurdodau lleol weithio ar draws gwahanol sectorau proffesiynol yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, mae cwtogi staff mewn adrannau eraill, ynghyd ag ailstrwythuro, yn llesteirio datblygu perthnasau trawsadrannol sefydlog.

Mae rhan i Lywodraeth Cymru ei chwarae wrth gadw prosesau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn cyflwr da ac er mwyn cynnal amodau i awdurdodau lleol sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae. Mae grym yn dal i'w gael yn natur statudol y Ddyletswydd. Mae'r gofyn i gyflwyno adolygiadau cynnydd bob blwyddyn a chynnal PSA llawn bob tair blynedd yn allweddol ar gyfer cynnal momentwm, ac mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad bod angen gwneud mwy o ddefnydd o'r gwaith caled sy'n mynd i mewn i PSAs, ac i Ddigonolrwydd Chwarae'n gyffredinol, a'i gefnogi ar lefel genedlaethol, fel y mae'r dyfyniad isod yn nodi:

'Rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru gydnabod bod cryn dipyn o gynnydd wedi ei wneud yn lleol, mae llawer wedi ei wneud, ond mae llawer NA ellir ei wneud yn lleol ac sydd angen agwedd genedlaethol. Rydym wedi cyrraedd pwynt bellach ble mae cyddoethineb a sgiliau cyffredin a llawer o awdurdodau'n gwneud pethau tebyg. Felly, rwy'n credu ein bod ni nawr angen rhywfaint o arweiniad cenedlaethol, y mae Chwarae Cymru yn ei gynnig i raddau, ond mewn gwirionedd mae rhaid iddo gael ei arwain gan Lywodraeth Cymru i dynnu popeth at ei gilydd i ddweud – iawn, beth nawr, mae'r Ddyletswydd gyda ni, ble ydyn ni am fynd gyda hyn, sut mae hyn yn hysbysu'r modd y byddwn ni'n ariannu, yr hyn yn byddwn yn ei ariannu, y polisiâu yr ydym yn eu creu? Oherwydd heb yr arweiniad yna, beth yw ei bwrpas?'

Arweinydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

O ran ariannu i gefnogi Digonolrwydd Chwarae, mae'r mwyafrif o ffrydiau ariannu un ai wedi eu disbyddu neu eu hailwampio mewn ffyrdd sy'n golygu eu bod yn anodd i wasanaethau chwarae gael mynediad iddynt. Tra bo awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi'n fawr y £9.4 miliwn fu ar gael trwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG) ers 2013, a ddefnyddiwyd i ariannu gwaith da, mae natur munud olaf, anrhagweladwy'r ariannu yma'n milwrio yn erbyn cynllunio strategol tymor hir effeithiol. Mae cyflwyniad y Rhaglen Ariannu Hyblyg yn codi cwestiynau newydd am ariannu ar gyfer chwarae plant, o ran arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol yn ogystal â dyfodol yr AWPOG.

Mewn cyfweiliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, cafodd y pryderon hyn eu cydnabod, yn ogystal ag anawsterau eraill a wynebir gan awdurdodau lleol. Y bwriad yw eu trafod yn Adolygiad Chwarae Llywodraeth Cymru sydd ar fin cael ei gynnal.

Cydberthynas

Mae'r gofrestr hon yn ymwneud â gweithio gyda chysylltiadau gwahanol (gwahanol weithwyr proffesiynol, polisïau, plant a chymunedau). Mae Cymru chwarae-gyfeillgar yn wlad sy'n talu sylw i wahaniaeth er mwyn newid arferion gweithio sy'n eithrio mynediad i adnoddau cyffredin. Un o gryfderau a chyflawniadau pennaf y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yw datblygu gweithio partneriaeth ar draws adrannau awdurdodau lleol a thu hwnt. O gofio bod chwarae yn *'digwydd pryd bynnag a ble bynnag y bydd cyfle'n codi'* (fel y cydnabyddir yn Sylw Cyffredin 17 CCUHP ar erthygl 31) ac o ystyried y pwyslais a geir yn y Cyfarwyddyd Statudol³ ar weld plant yn gallu chwarae allan yn eu cymdogaethau, mae chwarae'n troi'n fater o gyfiawnder gofodol.

Mae agwedd plant tuag at y byd yn wahanol i agwedd oedolion; tra gellir deall bywyd fel proses barhaus o geisio enydau ble byddwn yn teimlo'n well, mae'r modd y bydd hyn yn digwydd o ran oedolion a phlant yn wahanol iawn. Gellir ystyried chwarae fel safbwynt diodyn plant, a byddant yn chwilio am gyfleoedd i chwarae ble bynnag y

byddant. O ganlyniad, mae gweithio partneriaeth yn hanfodol. I lawer o'r rheini a gyfwelwyd, dyma oedd yr un ymdeimlad pennaf o gynnydd a wnaethpwyd ers cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, er na ellid cofnodi hynny mewn unrhyw fodd llinellol, unfurff neu ragweladwy. Siaradodd pobl yn frwd am y modd y mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi agor drysau i weithio partneriaeth, er bod hyn wedi amrywio ar draws yr awdurdodau.

'O fewn yr awdurdod, mae ymwybyddiaeth am gyfraniad chwarae i wahanol agendâu wedi cynyddu'n aruthrol. Bellach, mae'n ddiofyn y bydd cydweithwyr yn yr adrannau parciau, priffyrdd a chynllunio, ymysg eraill, yn holi am gynrychiolaeth chwarae ar bolisïau a datblygiadau newydd.'

Mae datblygu'r gweithlu bellach yn cynnwys nid yn unig y gweithlu gwaith chwarae ond hefyd y gweithlu chwarae ehangach: y bobl hynny y mae eu gwaith yn effeithio ar allu plant i ganfod amser a lle i chwarae. Mae ffyrdd dyfeisgar i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol sydd ddim yn ymwneud â chwarae i werthfawrogi eu rôl ym maes Digonolrwydd Chwarae, wedi cynnwys:

- cynadleddau 'Bywyd' (Bywyd Ysgol, Bywyd Parc, Bywyd Adref, Bywyd ar y Stryd);
- rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer awdurdodau lleol;
- datblygu e-fodiwl ar chwarae ar gyfer gweithwyr awdurdodau lleol sydd ddim yn arbenigwyr ar chwarae.

O ran datblygu'r gweithlu gwaith chwarae, mae'r diwygiad cyfredol o gymwysterau'n cydnabod arallgyfeirio cynyddol rolau gwaith chwarae. Mae gwaith Chwarae Cymru i ddatblygu cymwysterau atodol, byrrach ar Lefel 2 a Lefel 3 wedi ei gwneud yn haws i gynlluniau chwarae gwyliau gydymffurfio â gofynion rheoliadol.

Roedd gwaith Chwarae Cymru wrth gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei werthfawrogi'n

fawr. Mae hyn wedi cynnwys:

- cyfarfodydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae rhanbarthol;
- ymchwil;
- adolygiadau cenedlaethol o PSAs;
- gwaith hyfforddi, cymwysterau a datblygiad proffesiynol;
- tafenni gwybodaeth a phecynnau cymorth;
- a chefnogaeth swyddog unigol.

'Mae rôl Chwarae Cymru a'r gefnogaeth y mae'n ei gynnig i awdurdodau lleol, mae hynny wedi bod yn allweddol iawn trwy gydol y broses hon ... mae'r gwaith y mae Chwarae Cymru'n ei wneud a'r berthynas sydd ganddyn nhw gyda Llywodraeth Cymru, mae wedi bod yn dda iawn ar gyfer chwarae.'

Wrth gefnogi chwarae plant, dylid cydnabod hefyd nad yw'r plant eu hunain yn grŵp unffurf. Cafwyd nifer o fentrau ar gyfer grwpiau penodol o blant, yn cynnwys cefnogi chwarae ar gyfer plant anabl, plant hŷn (er bod toriadau i wasanaethau ieuencid wedi cael rhywfaint o effaith), plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n ffoaduriaid.

O ran chwarae yn y gymdogaeth, roedd nifer o fentrau'n canolbwyntio ar gynyddu capasiti mewn cymunedau ac ar annog derbyn a chefnogi plant i chwarae'r tu allan. Nododd un PSA yn 2019 bod prosiectau cymunedol yn golygu y gallai:

'rhieni ac oedolion eraill arsylwi capasiti plant a'u gallu i chwarae yn ogystal â'u ymateb iddo. O ganlyniad, maent yn helpu i leihau anoddefgarwch oedolion tuag at chwarae plant, gwella sgiliau pobl wrth ryngweithio gyda phlant sy'n chwarae, yn ogystal â gweithredu fel catalydd posibl ar gyfer gweithredu cymunedol a chyfranogi mewn datblygu a throsglwyddo gwasanaethau.'

Hawliau

Deëllir bod hawliau, yn y cyd-destun hwn, yn rhai cyffredin yn hytrach na'n rhai sy'n berchen deiliaid hawliau unigol; maent yn ymwneud â'r hawl i gyfoeth cyffredin. Mewn gwlad chwarae-gyfeillgar, mae hawliau'n ymwneud â chyfranogi mewn bywyd bob dydd a'r gallu i ffurfio ac elwa o'r hyn sydd gan fywyd i'w gynnig. I blant, mae hyn yn ymwneud cymaint ag Erthygl 15 o GCUHP (yr hawl i gymdeithasu ac ymgynnull yn heddychlon) ac y mae ag Erthygl 12 (yr hawl i gael gwrandawriad) a 31 (yr hawl i chwarae, gorffwys, hamdden a gweithgareddau diwylliannol).

Mae PSAs yn galw am ymgynghori gyda phlant ac, fel man cychwyn, gwneir hyn trwy arolygon, gan gynhyrchu data hydredol defnyddiol. Mae'r awdurdodau hynny sydd â'r capasiti wedi datblygu ffyrdd mwy creadigol a phlant-gyfeillgar o gasglu cyd-ddoethineb ynghylch perthynas plant â'u cymdogaethau. Mae un awdurdod wedi dechrau peilota asesiadau ar lefel cymdogaeth dan arweiniad plant, gan ddweud bod hyn yn helpu i *'fynd o dan groen beth yn union yw'r pynciau llosg lleol mewn cymuned'*. Mae llawer o'r ymchwil yn dangos bod nifer o blant yn dal i chwarae'r tu allan.

'Mewn ardaloedd ble fo plant yn adrodd am fodlonrwydd uchel gyda'u cyfleoedd i chwarae, nid yw eu straeon am chwarae'n cael eu cyfyngu i fannau dynodedig, yn hytrach byddant yn rhannu straeon am grwydro ar draws eu cymunedau a cheir hyd i dystiolaeth eu bod wedi bod yn chwarae ar hyd a lled eu tirweddau lleol. Mae'r plant hyn yn gallu dod o hyd i'w ffyrdd eu hunain trwy ac o amgylch eu cymdogaethau, gan wneud y mwyaf o'r hyn y mae'r amgylchedd yn ei gynnig ar gyfer chwarae ac, yn bwysig, mae'n cynnig llawer (er na fydd hyn yn amlwg i oedolion bob amser).'

Mewn sefyllfaoedd ble fo hawliau eraill plant yn cael eu peryglu, er enghraifft plant mewn llochesi i'r digartref, mae sesiynau gwaith chwarae'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Ail-gyfareddu

Mae hyn yn ymwneud â'r newidiadau niferus, bychan sydd wedi eu gwneud fydd yn gadael gofod yn agored er mwyn i chwarae plant allu ymddangos. Yn aml, roedd y straeon am ail-gyfareddu a adroddwyd wrthym, esiamplau o lwyddiannau, wedi codi trwy gyfuniad cymhleth o gydberthynas, atgyweirio, hawliau a hap (ond wedi eu gwreiddio mewn systemau), sgysiau a / neu gyfarfodydd. Mae chwarae plant ei hun yn aml yn golygu ail-gyfareddu lle, ail-bennu trefniant oedolion o amser a lle ar gyfer enydau ble fo bywyd yn well.

Yn gyffredinol, mae ymdeimlad o gyfareddu gyda'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n dal i fodoli, er gwaetha'r lluo o rymoedd dadrithiol sydd ar waith, ac yn enwedig effeithiau pellgyrhaeddol mesurau cynni. Yn ogystal, gall grymoedd ail-gyfareddu adlewyrchu rhinweddau chwarae ei hun: manteisiaeth, natur anrhagweladwy, proses, gweithio gyda phethau sydd ar y gweill, ansicrwydd.

Sylwadau clo

Mae newid yn cymryd amser ac mae dal i fod yn ddyddiau cynnar i Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yng Nghymru. Cyflwynwyd y Ddyletswydd ar un o'r adegau mwyaf heriol yn hanes llywodraethau lleol a datganoledig a gwasanaethau cyhoeddus, ond eto cyflawnwyd llawer o ran gweithio partneriaeth, cynyddu ymwybyddiaeth am hawl plant i chware, ac ad-drefnu gwasanaethau a gofodau i greu cyfleoedd i chwarae.

O ystyried y cyd-ddoethineb sydd wedi ei gasglu bellach, gallem gasglu mai'r hyn sydd wedi newid yw'r ddealltwriaeth gyffredin o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ei hun ac, o ganlyniad, y camau gweithredu a gymerwyd i gefnogi cynnal a chyfoethogi cyfleoedd plant i ganfod amser a lle i chwarae.

Felly, mae'r sylwadau clo hyn yn cynnig cyfuniad o egwyddorion ac argymhellion all gynnal a datblygu ymhellach gapasiti Cymru i fod yn wlad chwarae-gyfeillgar:

- Mae llawer o **frwdfrydedd** yn dal i fodoli ynghylch y Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol ar lefel llywodraeth leol a chenedlaethol; dylid gwneud pob ymdrech i gynnal neu ailgynnau'r cyfareddiad yma a chadw'r grymoedd dadrithiol draw.
- Mae'r cysyniad o 'ddigonolrwydd' yn **broses ac nid yn gynnyrch**: nid oes y fath beth â chyflwr 'digonolrwydd' terfynol, yn hytrach mae'n golygu proses gydweithrediadol barhaus o ymgysylltu ac arbrofi ar lefel leol a chenedlaethol ac mae'n gofyn i bobl fod yn barod i wneud pethau'n wahanol.
- Mae digonolrwydd chwarae'n **seiliedig ar hawliau**, yn unol â holl bolisiau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, o ystyried natur berthynol gofod, bywyd a chwarae, a'r cysyniad o wlad chwarae-gyfeillgar, ystyrir bod hawliau'n **elfennau cyffredin** ac nid yn berchen i'r unigolyn.
- Gwerthfawrogir chwarae am ei rôl yn **lles plant yma heddiw** yn ogystal â buddiannau cyfryngol sy'n edrych i'r dyfodol. Bydd plant yn chwilio am beth bynnag y gall amser a lle ei gynnig ar gyfer enydau o deimlo'n well am fywyd, enydau o obaith a phleser, pan nad oes raid i reolau'r byd rhesymegol a byd oedolion fod yn berthnasol bellach (yr hyn y gallem ei alw'n chwarae). Bydd yr enydau hyn yn codi o beth bynnag sydd i law.
- Ar **lefel genedlaethol**, mae rhan i Lywodraeth Cymru ei chwarae wrth **gadw prosesau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn cyflwr da** er mwyn cynnal amodau i awdurdodau lleol asesu a sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae, yn cynnwys parhad y bartneriaeth allweddol gyda Chwarae Cymru. Mae'r Adolygiad Chwarae arfaethedig yn cynnig cyfle i wneud hyn. Mae **cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd ar lefel genedlaethol** yn galw am dalu sylw i'r PSAs a chyd-ddoethineb a gasglwyd yn lleol, craffu ar PSAs i weld beth sy'n gweithio'n dda a chefnogi arferion o'r fath ar draws pob awdurdod lleol. Mae'n galw hefyd am ddefnyddio'r cyd-ddoethineb yna i weithio ar draws adrannau yn Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod hawl plant i chwarae yn **cael ei gydnabod a'i wreiddio**

mewn polisiâu cenedlaethol, arferion gwaith a ffrydiau ariannu (yn cynnwys ariannu ar gyfer awdurdodau lleol, trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae, a rôl allweddol Chwarae Cymru wrth gefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae). Ar adeg pan gaiff y ddeddfwriaeth Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ei hadolygu, gellid ehangu'r rhestr o wasanaethau / sefydliadau y mae gofyn iddynt fod yn rhan o'r broses i gynnwys yr heddlu, byrddau iechyd, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a'r gwasanaethau tân.

- Mae **cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd ar lefel leol** yn ymwneud hefyd â datblygu cyd-ddoethineb. Mae hyn yn galw am dalu sylw i'r ffyrdd y gall plant ganfod amser a lle ar gyfer chwarae fel rhan o batrymau ac arferion bywyd bob dydd. Felly, bydd y ffocws yn symud oddi wrth

'ddarparu chwarae' i ddynodi, datblygu a chynnal **yr amodau sy'n cefnogi chwarae**. Mae hefyd yn galw am dalu sylw i lu o ffyrdd (sy'n cynnwys ond sydd ddim yn gyfyngedig i ddarpariaeth chwarae), gwahanol ffyrdd a ffyrdd sefydledig o wybod am sut y mae gofod yn gweithio ac felly pa mor agored y gall fod ar gyfer cynyrchiadau chwarae plant. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer **ymchwil creadigol** ar ben arolygon safonol, ynghyd â chyfleoedd parhaus ar gyfer deialog.

- Mae hawl plant i chwarae'n fater o **gyfiawnder gofodol**. Mae cyfrifoldeb ac atebolrwydd oedolion yn ymwneud â **gosod arferion a threfniadau gofodol o dan chwyddwydr beirniadol** i weld sut y gall gofodau gynnwys neu eithrio plant a phobl ifanc rhag cael mynediad i'r adnoddau cyffredin sydd ar gael.



Cyfeiriadau

¹ Lester, S. a Russell, W. (2013) *Welingtons Croen Llewpar, Het Silc a Phiben Sugnwr Llŵch: Dadansoddiad o Ddyletswydd Asesiad Digonolrwydd Chwarae, Cymru*, Caerdydd: Chwarae Cymru; Lester, S. a Russell, W. (2014) *Towards Securing Sufficient Play Opportunities: A short study into the preparation undertaken for the commencement of the second part of the Welsh Government's Play Sufficiency Duty to secure sufficient play opportunities*, Caerdydd: Chwarae Cymru

² Amin, A. (2006) *The Good City, Urban Studies*, 43(5/6), td.1010

³ Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru - gwlad lle mae cyfle i chwarae*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i Chwarae Cymru am gomisiynu'r ymchwil ar raddfa fechan hwn ac am ddarparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth, ac i Lywodraeth Cymru am ddarparu cyllid. Diolch hefyd i'r rheini gytunodd inni eu cyfweld ac yn enwedig i'r staff, y plant a'r teuluoedd gymerodd ran mewn gwaith ymchwil gyda'r tri awdurdod astudiaeth achos.

Diolch o waelod calon hefyd i Stuart Lester, am darfu ar ein ffyrdd arferol o feddwl am chwarae a gofod yn ei ffordd ddoeth a drygionus ddihafal, y mae ei ddylanwad ar yr astudiaeth ymchwil hon yn sylweddol. Rydym yn gweld dy eisiau, ond mae dy waith yn parhau. Gobeithio ein bod wedi gwneud cyfiawnder iddo.